# Eich Newyddlen

Newyddlen y tenantiaid ar gyfer Gwasanaethau Tai Sir Ddinbych



**Rhifyn saith – Gwanwyn 2021**

# Blwyddyn o fyfyrio

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym i gyd wedi gweld amseroedd digynsail gyda COVID-19 a chyfnodau clo'r wlad, colled teulu a chymunedau yn dod ynghyd, dyma rai o'r pethau sydd wedi bod yn digwydd. Blwyddyn yn ddiweddarach ac mae Adran Dai Sir Ddinbych yn meddwl am y deuddeg mis diwethaf; mae cymaint wedi digwydd. Gobeithiwn eich bod i gyd yn parhau i gadw'n ddiogel ac yn iach.

Rydym wedi gweld straeon anhygoel am ein cymunedau yn dod at ei gilydd a rhannwyd enghraifft wych gyda chi yn y rhifyn diwethaf o breswylwyr Maes Menlli, Bruton Park, Y Rhyl yn trefnu bingo, cwis a boreau coffi drwy gadw pellter cymdeithasol! Mae yna gymaint o straeon tebyg wedi bod ar draws ein cymunedau yn Sir Ddinbych ac os oes gennych unrhyw straeon o ysbryd cymunedol yn ystod y pandemig, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych chi!

## Arolwg Tenantiaid a Phreswylwyr (STAR 2020)

Yr hydref diwethaf, gwnaethom ofyn i chi ein helpu i ddatblygu'r gwasanaethau rydym yn eu darparu i chi! Mae arnom eisiau parhau i godi ein safonau i'r lefel uchaf bosibl ac mae angen i ni weithio gyda chi er mwyn cyflawni hynny. Roeddem wedi gweld ein hymateb gorau, gyda dros 381 (12%) o arolygon wedi'u cwblhau gyda 262 (69%) ohonynt ar-lein, newyddion gwych!!

Mae uchafbwyntiau o'r arolwg yn cynnwys:

- Eich cymuned leol yw ein prif flaenoriaeth
- Mae'n bwysig cael cymdogion da
- Mwy o ymwybyddiaeth o ymddygiad gwrthgymdeithasol

Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi cymryd rhan, gan fod eich barn yn bwysig iawn.

★ Dros y 12 mis nesaf, byddwn yn canolbwyntio ar ailadeiladu ein cymunedau, cynnal digwyddiadau a gwella meysydd a nodwyd yn ein harolwg tenantiaid diweddar. Am fwy o wybodaeth am hyn, gweler tudalen 6-7.

### Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar Covid

Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bob un ohonoch am ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru a chadw Cymru yn ddiogel. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i dudalen 12.

### Yma i helpu

Rydym yma i helpu ac rydym wedi ymrwymo i ddarparu cymorth a chyngor. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i dudalen 13

### Cam-Drin Domestig

Mae mynd i'r afael â cham-drin domestig wedi'i nodi fel blaenoriaeth allweddol yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor. I gael rhagor o wybodaeth gweler tudalennau 16-17

# Yn y rhifyn hwn

## Tai Sir Ddinbych::


| | |
|---|---|
| Neges gan Geoff | Tudalen 3 |
| Arolwg STAR 2021 | Tudalen 6-7 |
| Diweddariad ar y Coronafeirws | Tudalen 12 |
| Gwefan newydd | Tudalen 15 |


## Buddsoddiad a Gwelliannau:


| | |
|---|---|
| Rhaglen Ddatblygu Tai | Tudalen 8 |
| Gwaith a drefnwyd a gwelliannau | Tudalen 9 |
| Y diweddaraf ar Drwsio a Chynnal a Chadw | Tudalen 11 |
| Gwelliannau Amgylcheddol | Tudalen 20 |


## Cymuned a Phobl:


| | |
|---|---|
| Dod i'n hadnabod ni | Tudalen 4–5 |
| Y Wybodaeth Ddiweddaraf Am y Gwobrau Tenantiaid | Tudalen 10 |
| Twyll Tenantiaeth | Tudalen 10 |
| Oeddech chi'n gwybod? | Tudalen 13–14 |

- Credyd Cynhwysol
- Cyngor ar Bopeth
- TPAS Cymru
- Sir Ddinbych yn Gweithio

| | |
|---|---|
| Yr Hen Goeden Dderwen | Tudalen 15 |
| Cam-drin Domestig a Chamddefnyddio Alcohol – Ein Haddewid | Tudalen 16–17 |
| Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar Ddatblygu Cymunedol | Tudalen 18 |
| Sbotolau – Beth mae llyfrgelloedd yn gallu ei wneud i chi? | Page 19 |




## Bwrdd Newyddion

I roi gwybod am unrhyw faterion cynnal a chadw, cysylltwch â Gwasanaethau i Gwsmeriaid:
Dydd Llun – dydd Gwener 9:00am – 5:00pm 01824 706000

Argyfwng Tu Allan i Oriau 0300 123 3069

Galw Gofal (Llinell Ofal) 0300 123 6688

Un Pwynt Mynediad (SPOA) ar gyfer atgyfeiriadau cefnogaeth 0300 456 1000

Argyfwng Nwy 0800 111 999

Argyfwng Trydan 080031 63 105

Galw Iechyd Cymru
111

Rhybuddion llifogydd
0345 988 1188

Type talk
0345 602 6340

# Neges gan Geoff Davies, Swyddog Arweiniol, Tai Cymunedol

**Mae Tai Sir Ddinbych yn falch o gyflwyno ein newyddlen ddiweddaraf.**

**Roedd 2020 yn flwyddyn heriol, wrth i'r Pandemig Covid amharu ar lawer o'n cynlluniau yn Tai Sir Ddinbych. Yn benodol, mae'r cyfnodau clo wedi effeithio ar ein gallu i ddarparu ein gwasanaethau fel arfer, ond hefyd wedi ein galluogi i gysylltu'n effeithiol gyda'n cwsmeriaid a'n cymunedau.**

Mae yna gymaint rydym wedi fethu ei ddarparu eleni, gan gynnwys cynnal digwyddiadau cymunedol yn ystod 2020. Rydym yn gwerthfawrogi mynd allan a siarad gyda phobl sy'n byw yn ein cymunedau. Mae'r adborth rydych yn ei rannu gyda ni am eich cartrefi a'r gwasanaethau mor hanfodol.

Roeddem yn siomedig iawn ein bod wedi gorfod gohirio ein gwobrau i denantiaid y llynedd. Roedd hwn yn llwyddiannus iawn yn 2019 ac roedd wedi codi proffil cymaint o bobl anhygoel sy'n gwneud ein cymunedau yr hyn ydyn nhw. Am fwy o wybodaeth am ein Gwobrau Tenant Tai Sir Ddinbych nesaf, gweler tudalen 10.

Bydd 2021 yn flwyddyn heriol i ni gyd, addasu i ffyrdd newydd o fyw a darparu gwasanaeth. Rydym eisiau parhau i wella ein gwasanaethau ac angen eich cymorth a'ch cefnogaeth i gyflawni hyn. Rydym yn parhau i ddarparu rhaglen fuddsoddi sylweddol yn ein cartrefi, gan wneud yn siŵr eu bod yn parhau i fodloni'r safonau a ddisgwylir gennym. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i dudalen 9.

Gobeithio eich bod wedi llwyddo i gymryd rhan yn ein Harolwg i Denantiaid a Phreswylwyr ym mis Tachwedd y llynedd, ond rydym yn ymwybodol am yr effaith oedd Covid wedi'i gael ar rywfaint o'r adborth hwn. Mae hyn yn amlwg yn y sylwadau rydym wedi eu derbyn am pa mor bwysig yw'r gymuned leol i'r sawl wnaeth ymateb. Gallwch wybod mwy am y canlyniadau a beth sy'n digwydd nesaf ar dudalen 6.

Yn olaf, mae llawer o bobl wedi cael ei heffeithio drwy golli rhywun agos atynt dros y flwyddyn ddiwethaf. Roeddem yn ddigalon iawn o glywed am farwolaeth Marion Bryan yn sydyn ym mis Chwefror eleni. Roedd Marion wedi rhoi cymaint o'i hamser i gynrychioli ein tenantiaid a chefnogi Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych (DTARF) dros nifer o flynyddoedd. Teithiodd o amgylch Cymru i gynrychioli Tai Sir Ddinbych ac roedd hefyd yn drysorydd DTARF, sydd byth yn waith hawdd. Yn ogystal â hyn, bu'n gweithio'n ddiflino dros ei chymuned leol yn Ninbych a bydd llawer o bobl yn ei cholli yn fawr iawn.

O safbwynt personol, roedd Marion bob amser yn gefnogol ond roedd yn teimlo'n gyfforddus yn ein herio ni pan oedd yn teimlo nad oedd rhywbeth yn iawn. Mae'n hanfodol ein bod yn cynnal yr etifeddiaeth hon er cof am Marion.



# Dod i'n hadnabod ni

**Ym mhob newyddlen rydym eisiau rhoi'r sbotolau ar un o'n staff tai, a chynrychiolydd tenant. Mae'r rhifyn hwn yn rhoi'r sbotolau ar:**

## Ddiwrnod ym mywyd Melvyn Hughes ein Swyddog Contract Rheoli Cyfleusterau

### Beth yw eich rôl gyda'r adran dai?

Rwy'n rheoli ochr weithredol Cynnal a Chadw Tir Tai Sir Ddinbych

Rwy'n cysylltu gyda chontractwyr sy'n gwneud unrhyw waith cynnal a chadw'r tir o amgylch ein hystadau a thai.

Rwy'n monitro ac yn gwneud yn siŵr fod ein tenantiaid yn derbyn gwasanaeth o ansawdd uchel gan ein contractwyr cynnal a chadw tir.

Rwy'n gwneud yn siŵr fod unrhyw dipio anghyfreithlon neu sbwriel yn derbyn sylw yn brydlon, a rhoi gwybod i'r timau perthnasol i ddelio gyda'r mater.

Rwy'n rheoli'r gwiriadau iechyd a diogelwch o'r ardaloedd chwarae sy'n eiddo i Dai Sir Ddinbych. Mae archwiliadau wythnosol yn cael eu cynnal i sicrhau bod yr offer chwarae yn ddiogel i'w ddefnyddio.

Yn achlysurol rwy'n cefnogi'r digwyddiadau datblygu cymunedol. Un o fy hoff ddigwyddiadau oedd pan oeddwn yn helpu plant i wneud blychau adar i fynd adref i'w gerddi.

### Disgrifiwch ddiwrnod arferol yn eich rôl?

Ar ddiwrnod arferol, byddwn yn gyrru o amgylch yr ystadau a'r cyfadeiladau, yn monitro ansawdd ardaloedd ble mae'r gwair wedi'i dorri, rheoli chwyn neu wrychoedd a chynnal a chadw llwyni. Rwy'n mwynhau cerdded o amgylch y cyfadeiladau yn arbennig, sgwrsio gyda thenantiaid a thrafod unrhyw un o'r ardaloedd gerddi sydd ganddynt a chynnig cyngor iddynt. Mae fy rôl yn cynnwys Sir Ddinbych i gyd, gan ddechrau yn y Rhyl yna Prestatyn, Gallt Melyd a Dyserth, yr holl ffordd i lawr i Langollen, Corwen a Llandrillo, gan wneud yn siŵr fod ein safleoedd i gyd yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda.

### Beth ydych chi wedi'i golli fwyaf yn ystod y cyfnod clo?

Rwyf wedi colli treulio amser gyda fy nheulu, yn arbennig y barbeciw yn yr ardd, yr oeddem yn eu cael yn rheolaidd yn ystod tywydd braf. Nid yw wedi ein hatal yn llwyr, gan fod fy ngwraig a minnau yn eistedd ac yn sgwrsio yn yr ardd yn rheolaidd pan fydd y tywydd yn braf. Yn ystod misoedd oerach y gaeaf, roeddem yn aml yn cael y parti karaoke i ddau, oedd yn gwneud i ni chwerthin. Rwy'n colli mynd i ffwrdd ar wyliau boed yn yr haul poeth neu yn y wlad hon.

### Beth yw eich hoff raglen teledu?

Wel, mae fy ngwraig yn hoffi ei rhaglenni sebon, felly rwyf i fel arfer yn gwylio fy hoff raglenni dogfen, rhaglen "paent yn sychu" fel byddai fy ngwraig yn ei ddweud. Rydym bob amser yn gwylio'r hen raglenni gyda'n gilydd, nid ydym yn gallu cael digon o 'Only Fools and Horses' ac 'Royle Family'. Fel arfer, mae'n well gennym fynd ar deithiau cerdded hir ac nawr ein bod yn cael tywydd gwell, gallwn ddechrau eto yn fuan.



## Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych (DTARF): John Woodward

### Beth yw eich rôl gyda'r adran dai?

Rwy'n Gadeirydd Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych (DTARF). Mae hyn yn golygu fy mod yn cadeirio'r cyfarfodydd DTARF misol ac yn gweithio gyda staff Tai Sir Ddinbych i gynrychioli ein tenantiaid a gwella gwasanaethau.

Dechreuais fynd i gyfarfodydd tenantiaid yn Llys-y-Felin, Llanelwy tua 2008/09 a hefyd mynychais gyfarfodydd DTARF.

Tua 2013/14 gofynnwyd i mi sefyll i fod yn gadeirydd DTARF ac rwyf wedi bod yn gadeirydd ers hynny.

### Disgrifiwch ddiwrnod arferol yn eich rôl?

Byddai diwrnod nodweddiadol mewn cyfarfod DTARF yn cynnwys teithio i amrywiol leoliadau, yn dibynnu ym mha ganolfan gymunedol mae'r cyfarfod yn cael ei gynnal. Trafod unrhyw faterion  a chyflwyno unrhyw bryderon sydd gan y tenantiaid.

Yna'r wythnos ddilynol rwy'n neilltuo diwrnod i gael "diwrnod i'w gwneud" a gweithredu unrhyw beth sydd wedi dod allan o'r cyfarfod.

Cyn y cyfnodau clo, weithiau roeddem yn cyfarfod gyda chymdeithasau eraill yn y sir, grwpiau ac yn mynychu seminarau rhanbarthol neu genedlaethol. Byddem yn teithio gyda swyddogion i gynhadledd flynyddol TPAS Cymru, yn rhoi cyfle i ni gynrychioli tenantiaid Tai Sir Ddinbych a chyfarfod tenantiaid eraill o amgylch Cymru.




### Beth ydych chi wedi'i golli fwyaf yn ystod y cyfnod clo?

Ers y cyfnod clo, rwyf wedi colli'r wyrion fwyaf, nid wyf wedi cael y pleser i gyfarfod un ohonynt eto, (cafodd ei eni fis Rhagfyr diwethaf). Hefyd, rwyf wedi colli mynd i'n carafán i ymlacio, a gwneud y pethau syml fel "mynd am dro yn y car" a heb anghofio fy angerdd – pêl-droed.

### Beth yw eich hoff raglen teledu?

Fy hoff sioeau teledu yw "Last of the summer wine" a "M.A.S.H.".   dwy sioe wych a fy hoff ffilm "African Queen."



# Cynnwys ffeithlun Newyddlen 2021 Arolwg o Denantiaid a Phreswylwyr (STAR)

Yn gyntaf, hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i bawb a gymerodd ran yn ein harolwg diweddar. Cawsom dros 381 (12%) ymateb, 262 (69%) ohonynt ar-lein, sy'n newyddion gwych!

Yn y ddwy flynedd ddiwethaf bu newidiadau arwyddocaol i Dai Sir Ddinbych, ein tenantiaid a'n cymunedau. Mae arnom eisiau parhau i godi ein safonau i'r lefel uchaf posib ac mae angen i ni weithio gyda chi er mwyn cyflawni hynny.



Ansawdd y cartref

**77%**


dywedodd 77% o denantiaid eu bod yn fodlon gydag ansawdd cyffredinol eu cartref.



Diogel

**79%**


dywedodd 79% o'n tenantiaid eu bod yn fodlon ein bod yn darparu cartref sy'n ddiogel.



Hawdd delio â ni

**76%**

dywedodd 76% o'n tenantiaid eu bod yn fodlon ei fod yn hawdd delio â ni.



Gwrando a gweithredu

**67%**

dywedodd 67% o'n tenantiaid eu bod yn fodlon ein bod yn gwrando ar eu safbwyntiau ac yn gweithredu arnynt.



Cymdogaeth

**79%**

dywedodd 79% o'n tenantiaid eu bod yn fodlon â'u cymdogaeth fel lle i fyw.



Rhent

**79%**

dywedodd 79% o'n tenantiaid eu bod yn fodlon bod eu rhent yn cynnig gwerth am arian.





Tâl gwasanaeth

**60%**

dywedodd 60% o'n tenantiaid eu bod yn fodlon bod eu tâl gwasanaeth yn cynnig gwerth am arian.



Gwaith trwsio a chynnal

**71%**

dywedodd 71% o'n tenantiaid eu bod yn fodlon gyda'r gwasanaeth trwsio a chynnal.



Gwasanaeth cyffredino

**79%**

dywedodd 79% o'n tenantiaid eu bod yn fodlon gyda'r gwasanaeth cyffredinol a ddarperir.

## Mae'r 3 prif bennawd o'r arolwg yn cynnwys:

- Eich cymuned leol yw eich prif flaenoriaeth.
- Mae cael cymdogion da yn bwysig i chi.
- Mae gennych fwy o ymwybyddiaeth pan nad yw pobl yn ymddwyn yn gyfrifol.

Hoffwn ddiolch i bawb a gymerodd ran, gan fod eich barn a'ch safbwyntiau wir o bwys.

## Beth nesaf?

Ar sail y canlyniadau o Arolwg Tenantiaid a Phreswylwyr 2021, byddwn yn canolbwyntio ar:

- Ddatblygu ein cynllun datblygu cymunedol, trwy siarad gyda thenantiaid ynglŷn â sut gallwn weithredu ar yr adborth.
- Siarad gyda chi am sut y gallwch siapio ein gwasanaethau.
- Edrych ar fwy o ffyrdd i weithio gyda chymunedau.
- Gwella ein cymunedau digidol trwy ddefnyddio e-bost a negeseuon testun.
- Er mwyn bod yn gyson â meincnodi'r sector dai awdurdodau lleol yng Nghymru, ac i barhau i gael eich cyfraniad o ran siapio ein gwasanaethau, byddwn yn anfon ein harolwg o denantiaid a phreswylwyr eto yr hydref hwn i chi ei gwblhau. Gobeithiwn gael ymateb hyd yn oed yn well na'r tro hwn.

# Rhaglen Ddatblygu Tai

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Yn ein newyddlen ddiwethaf, roeddem wedi rhannu'r gwaith fyddai'n dechrau ar adeiladu cartrefi newydd, effeithlonrwydd ynni Passivhaus yn Ninbych a Phrestatyn.**

Roedd Brenig Construction a leolir yng Ngogledd Cymru wedi dechrau gweithio ar y datblygiad yn Ninbych ym mis Hydref a hefyd wedi penodi cwmni lleol arall, Peter T Griffiths Construction i adeiladu pedwar rhandy newydd ar Caradoc Road ym Mhrestatyn, a dechreuodd y gwaith yno ym mis Ionawr. Bydd cartrefi yn y ddau ddatblygiad yn barod i denantiaid symud i mewn erbyn yr hydref. Fel rhan o'n hymrwymiad i gynyddu tai cymdeithasol newydd yn Sir Ddinbych, rydym wedi bod yn gweithio'n agos gydag adeiladwyr lleol. Fel rhan o'r broses cynllunio, mae'n rhaid i unrhyw ddatblygiad tai mawr gynnwys canran o dai fforddiadwy. Roedd datblygiad diweddar yn Nyserth, Cysgod y Graig yn cynnwys chwech tŷ fforddiadwy ar gael, rydym nawr yn berchen arnynt. Roedd ein tenantiaid newydd wedi symud i mewn i'r un cyntaf cyn y Nadolig!






Rydym bob amser yn edrych am gyfleoedd gwahanol i ddarparu tai newydd yn Sir Ddinbych. Rydym wedi prynu bloc o swyddfeydd yn ddiweddar, Llys Anwyl yn Ffordd Churton a byddwn yn eu trosi i 12 rhandy hygyrch yn ystod yr haf.



Hefyd, mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi i adfywio canol tref y Rhyl. Fel rhan o'r prosiect hwn, byddwn yn dechrau gweithio i adfywio'r hen siop Granite yn y gwanwyn i ddarparu 8 rhandy ar y lloriau uchaf.

Byddwn yn rhoi diweddariadau i chi ar gynnydd y prosiectau hyn, a phrosiectau eraill sy'n mynd drwy'r broses gynllunio ar hyn o bryd.





Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gwaith a Drefnwyd

**Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i allu darparu llawer o waith a drefnwyd, o fewn canllawiau Llywodraeth Cymru i wella cartrefi. Mae'r rhain yn cynnwys:**

## Prif Welliannau Allanol Gallt Melyd

Mae ein cynllun gwella allanol ar 55 eiddo ar y gweill yng Ngallt Melyd ar hyn o bryd. Mae ein contractwr, Gwasanaethau Adeiladu Cynaliadwy wedi darparu nifer o raglenni gwaith tebyg ar gyfer Tai Sir Ddinbych dros y blynyddoedd diwethaf, gan weld gwelliannau ar gyfer eich cartrefi.

Mae'r gwaith gwella yn cynrychioli buddsoddiad sylweddol yn y stoc dai yng Ngallt Melyd. Mae wedi cael ei ddylunio i gynnwys nifer o welliannau gan gynnwys newid toeau, newid rendr, gwella llinell doeau a chafnau a pheipiau glaw.

Fel rhan o'r buddsoddiad, rydym hefyd wedi llwyddo i gael arian gan Lywodraeth Cymru i wneud gwelliannau o ran arbed ynni yn yr eiddo hwn. Mae'r gwaith ychwanegol hwn yn cynnwys ychwanegu paneli solar i'r toeau, mwy o inswleiddiad ar waliau allanol a storio batri i harnesio'r ynni a gynhyrchir gan y paneli solar.

Dyma'r tro cyntaf i Dai Sir Ddinbych ddarparu rhaglen arbed ynni ar raddfa mor fawr. Bydd y canlyniadau yn gwella'r perfformiad arbed ynni yn sylweddol ym mhob cartref ac yn gostwng eich biliau tanwydd. Rydym hefyd yn gosod offer monitro ynni yn ein heiddo i dracio effeithlonrwydd o ran ynni yn ein cartrefi. Bydd hyn yn helpu i gyflawni gwelliannau pellach yn y dyfodol. Bydd y gwaith yn cael ei gwblhau ym mis Mai 2021.



## Gwelliannau Gwresogi

Fel rhan o'n hymrwymiad i wella effeithlonrwydd ynni yn ein cartrefi, rydym wedi llwyddo i osod 130 o Bympiau Gwres yr Awyr (ASHP). Mae ASHP yn cynyddu tymheredd yr aer y tu allan, sy'n trosglwyddo i ddŵr wedi'i wresogi yn ôl i mewn i'r eiddo, mewn ffordd tebyg i system gwresogi confensiynol.

Nid yw'r eiddo a ddewiswyd ar gyfer y gwaith hwn yn cynnwys cysylltiad nwy. Mae'r prosiect hwn yn un arall i Dai Sir Ddinbych ac mae adborth tenantiaid wedi bod yn gadarnhaol iawn. Mae wedi profi'n effeithiol ar ôl cael ei osod yn gywir ac mae preswylwyr wedi newid i dariff addas o'r tariff tanwydd deuol presennol. Os ydych wedi cael gosod ASHP yn ddiweddar ac angen unrhyw gyngor am eich mesurydd/tariff neu gyngor ar sut i gael y perfformiad gorau, gallwch gysylltu â ni.

Rydym yn bwriadu cwblhau ail gam y rhaglen hon a byddwn yn ysgrifennu at holl denantiaid a ddewiswyd yn ystod 2021/22. Mae'r gwaith hwn yn cael ei gwblhau i leihau biliau tanwydd, gwella cysur a helpu i gyflawni ein targedau lleihau ôl-troed carbon Tai Sir Ddinbych.

## Uwchraddio ffenestri, ffasgia a soffit

Y flwyddyn ddiwethaf roeddem yn bwriadu uwchraddio nifer fawr o ffenestri a deunyddiau llinell toeau yn ein heiddo. Yn anffodus, oherwydd cyfyngiadau Covid-19, roedd yn rhaid oedi'r rhan fwyaf o'r gwaith hwn. Mae hyn wedi bod oherwydd cyfyngiadau'r cyfnod clo yn arwain at broblemau cadwyn gyflenwi ar draws y sector gweithgynhyrchu yn y diwydiant hwn. Rydym yn gobeithio adolygu hyn yn ystod 2021/22 er mwyn aildrefnu'r gwaith hwn. Unwaith y bydd gennym syniad gwell pryd y byddwn yn gallu ailddechrau'r rhaglen waith, byddwn yn ysgrifennu at holl denantiaid a aildrefnwyd eu heiddo i gadarnhau'r trefniadau.

# Twyll Tenantiaeth



## Beth i'w wneud os ydych yn amau twyll

Twyll tenantiaeth, er enghraifft yw pan mae gan denant denantiaeth gyda ni ond yn byw yn rhywle arall, yn gosod y cartref i rhywun arall (gan gynnwys aelodau o'r teulu). Mae hefyd yn cynnwys darparu gwybodaeth ffug wrth ymgeisio am dai, neu ymgeisio'n anghyfreithiol i olynu tenantiaeth rhywun sydd wedi marw.

## Camau a gymerir gennym yn erbyn twyll tenantiaeth

Byddwn yn ymchwilio i holl gyhuddiadau o dwyll tenantiaeth, gan ei fod yn ddifrifol iawn. Ble mae yna ddigon o dystiolaeth bod yna dwyll wedi digwydd, byddwn yn cymryd camau. Gall y camau hyn gynnwys erlyniad troseddol ac/neu hawlio meddiant yr eiddo drwy'r llysoedd sifil.

## Beth fedrwch chi ei wneud i helpu?

Os ydych yn meddwl bod rhywun yn euog o dwyll tenantiaeth gadewch i ni wybod drwy siarad gyda'ch Swyddog Tai, **ffoniwch ni ar 01824 706000 neu anfonwch e-bost at tai@sirddinbych.gov.uk**

Bydd pob adroddiad yn cael ei drin yn gyfrinachol ac ni fyddwch yn cael eich adnabod gan y sawl yr adroddwyd amdanynt. Nid oes angen i chi roi eich manylion cyswllt i ni. Fodd bynnag, os hoffech i ni gysylltu â chi ymhellach ynglŷn â'ch adroddiad, gadewch eich enw a'ch rhif cyswllt.

# Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Wobrau Tenantiaid Tai Sir Ddinbych 2020

Yn ein newyddlen ddiwethaf, gwnaethom roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ar ein cynlluniau i ohirio Gwobrau Tenantiaid Tai Sir Ddinbych tan yn hwyrach yn 2021. Ar ôl ystyried y sefyllfa sy'n dal i newid, rydym yn meddwl y byddai'n fwy diogel gohirio'r gwobrau tan yr hydref 2022. Fodd bynnag, tydy hynny ddim yn eich atal rhag gadael i ni wybod am y pethau gwych yr ydych chi, a phobl yn eich cymuned wedi bod yn ei wneud.

Rydym yn gobeithio lansio gwobrau'r flwyddyn nesaf yn y gwanwyn 2022 a'r categorïau fydd:

**Tenant Ifanc y Flwyddyn**

Arwr Cymunedol y Flwyddyn

Preswylydd Tai / Grŵp Cymunedol y Flwyddyn

Gardd y Flwyddyn – Tenant

Gardd y flwyddyn – Cymuned

**Tenant y Flwyddyn**

Cymydog y Flwyddyn

Gwasanaeth i Gwsmeriaid Tai Sir Ddinbych

Prosiect Cymunedol y Flwyddyn

Gardd y flwyddyn – Ardal gymunedol

**Paratowch eich enwebiadau!**

Tai Sir Ddinbych Denbighshire Housing
Buddsoddi yn ein Cymunedau • Investing in our Communities

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

# Egluro Gwaith Trwsio, Cynnal a Chadw a Hanfodol

Teimlwn y byddai'n ddefnyddiol rhannu eich cynllun adfer cyfredol gyda chi ar gyfer gwaith trwsio, cynnal a chadw a hanfodol ac adeiladau newydd yn ystod y pandemig presennol, COVID-19. Oherwydd y sefyllfa bresennol, a'r cyngor a chyfarwyddyd parhaus gan Lywodraeth Cymru, gall ein hymateb adferiad newid ar fyr rybudd. Bydd y ffordd rydym yn gwneud gwaith trwsio yn newid, er mwyn i ni allu dilyn mesurau cadw pellter cymdeithasol ble bynnag bosibl.

Diolch am eich amynedd wrth i ni geisio adfer ein gwasanaeth. I gael rhagor o wybodaeth ewch i **www.taisirddinbych.co.uk/y-wybodaeth-ddiweddaraf-am-y-coronafeirws** neu cysylltwch â ni ar **01824 706000**.



## Cyfnod Clo

**Ni wnaed unrhyw waith trwsio nad oedd yn hanfodol.**

- Gwaith trwsio brys yn unig
- Gwaith ar eiddo gwag
- Gwasanaeth tanwydd nwy, gan gynnwys archwiliadau diogelwch a thrwsio boeler

## Cyfnod Adfer 1

RYDYM YMA

**Rydym yn disgwyl galw uchel ac oedi hir wrth i ni ymateb i'r ôl-groniad o waith.**

- Gwaith trwsio brys – dolen i'r wefan i gael mwy o wybodaeth
- Gwaith ar eiddo gwag
- Gwaith trwsio cyffredinol byr
- Cymhorthion ac addasiadau
- Gwaith allanol
- Rhaglen adeiladau newydd i ail-gychwyn
- Gwasanaeth tanwydd nwy, gan gynnwys archwiliadau diogelwch a thrwsio boeler

## Cyfnod Adfer 2

**Rydym yn disgwyl i'r amseroedd aros leihau.**


- Gwaith trwsio brys
- Gwaith ar eiddo gwag
- Gwaith hyd at ½ diwrnod
- Cymhorthion ac addasiadau
- Gwaith allanol
- Rhaglen adeiladau newydd i ail-gychwyn
- Rhaglenni gwella a gynl-luniwyd
- Gwasanaeth tanwydd nwy, gan gynnwys archwiliadau diogelwch a thrwsio boeler
- Gwasanaeth tanwydd eraill gan gynnwys tanwydd solet ac offer olew

## Cyfnod Adfer 3

**Busnes arferol i gychwyn gyda mesurau diogelwch newydd (arferol) mewn lle.**

- Dychwelyd i waith llawn
- Gwaith trwsio brys
- Gwaith ar eiddo gwag
- Gwaith trwsio cyffredinol nad yw'n hanfodol
- Cymhorthion ac addasiadau
- Gwaith allanol
- Rhaglen adeiladau newydd i ail-gychwyn
- Rhaglenni gwella a gynl-luniwyd
- Gwasanaeth tanwydd nwy, gan gynnwys archwiliadau diogelwch a thrwsio boeler
- Gwasanaeth tanwydd eraill gan gynnwys tanwydd solet ac offer olew

Sicrhewch eich bod yn aros o leiaf **2 fetr** i ffwrdd oddi wrth unrhyw weithwyr masnach tra byddant yn gwneud gwaith atgyweirio yn eich cartref.



Rydym eisiau diolch i chi am eich cefnogaeth hyd yma ac am ein cadw ni a phawb arall yn ddiogel. Rydym yn parhau i ofyn pan fydd gweithiwr crefft neu swyddog yn ymweld â'ch cartref, a fyddech cystal â dilyn y canllawiau isod a chadw ffenestri a drysau yn agored yn ystod ein hymweliad.

# Diweddariad ar y Coronafeirws

**Mae'r 14 mis diwethaf wedi bod yn gyfnod o addasu anferth i bob un ohonom, ein cymunedau a'n ffordd o fyw. Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bob un ohonoch am ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru a chadw Cymru yn ddiogel.**

Yn ein newyddlen hydref 2020, gwnaethom roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ar fesurau newydd a roddwyd ar waith i barhau i ddarparu ein gwasanaethau i chi. Bydd y mesurau hyn yn parhau er mwyn eich cadw chi, ein staff a chymunedau yn ddiogel. Rydym eisiau eich sicrhau chi ein bod yn parhau i wneud popeth y gallwn i'ch helpu a'ch cefnogi drwy'r cyfnod ansicr hwn yn ogystal â dechrau edrych ymlaen.

Rydym yn parhau i fonitro unrhyw gyngor neu newidiadau i ganllawiau Llywodraeth Cymru, yn arbennig ynglŷn â chadw pellter cymdeithasol a helpu i gefnogi i leihau lledaeniad y coronafeirws.

Mae'n bwysig ein bod yn eich diogelu chi a'n gweithlu. Os ar unrhyw adeg, y byddwn yn meddwl bod ein staff neu unrhyw un yn eich cartref mewn perygl drwy beidio dilyn y rheol 2 fetr, byddwn yn gofyn yn garedig i chi gadw pellter cymdeithasol ac os bydd hyn yn parhau, bydd yn rhaid i ni ymddiheuro a dod â'r ymweliad i ben.

Mae'n bwysig iawn i ni ein bod yn cadw pawb yn ddiogel gymaint â phosibl.

- Bydd apwyntiadau yn cael eu trefnu ymlaen llaw.
- Fe fyddwn yn eich ffonio cyn ymweld ac yn gofyn i chi gadarnhau nad ydych chi'n dangos unrhyw symptomau nac yn hunan-ynysu 24 awr cyn eich apwyntiad. Byddwn yn gadael i chi wybod beth i'w ddisgwyl yn ystod eich ymweliad.
- Os oes gennych symptomau o COVID-19, mae'n rhaid i chi ddweud wrthym cyn i ni ymweld neu pan fyddwn yn cyrraedd fel y gallwn aildrefnu'r apwyntiad.
- Wrth agor y drws, gwiriwch pwy sydd yno, agorwch y drws, symudwch yn ôl i mewn i'ch eiddo. Bydd y swyddog yn aros 2 fetr i ffwrdd o'ch drws.
- Os byddwn angen dod i mewn i'ch cartref, gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw 2 fetr i ffwrdd, neu ewch i ystafell arall fel y gallwn ddod i mewn i'ch cartref yn ddiogel.
- Byddwn yn gofyn i chi ac i eraill yn y cartref wisgo gorchudd wyneb, oni bai eich bod chi neu unrhyw un wedi eich eithrio am resymau meddygol.
- Ni fyddwn yn gallu ysgwyd llaw.
- Yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd bydd staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol (PPE).
- Byddwn yn gofyn i bawb arall aros mewn ystafell wahanol, oni bai eu bod yn gyd-denantiaid neu'n hanfodol ar gyfer cefnogaeth.





# Oeddech chi'n gwybod?

**Mae Tai Sir Ddinbych yma i helpu ac wedi ymrwymo i gynorthwyo â'r trawsnewid i Gredyd Cynhwysol.**

Gallwn roi cymorth a chyngor gyda'r canlynol:

- Cymorth gyda chyllidebu a rheoli eich arian
- Gwneud cais am Ostyngiad Treth y Cyngor
- Rheoli ôl-ddyled a rheoli tenantiaeth
- Gwybodaeth am sefydliadau all ddarparu offer TG cost isel i'w ddefnyddio yn y cartref
- Rheoli dyledion
- Gwneud cais am Brydau Ysgol am Ddim




Mewn rhai amgylchiadau, gyda'ch caniatâd chi, efallai y byddwn yn eich cyfeirio i darparwyr eraill am gymorth.

**I gael rhagor o wybodaeth gallwch gysylltu a'r tim tai ar 01824 706000.**

# Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych

**Mae Tai Sir Ddinbych yn gweithio'n agos gyda Chyngor ar Bopeth Sir Ddinbych, gan ddarparu gweithiwr achosion ymroddedig, Peter Eastham, sy'n cyfeirio tenantiaid atom am gymorth. Rydym yn gallu atgyfeirio at Gyngor Ar Bopeth er mwyn cael cyngor ar fudd-daliadau, dyled ac ynni, ond rydym hefyd yn gallu atgyfeirio tenantiaid sydd eisiau cyngor a chymorth mewn meysydd eraill.**

Un o'r prosiectau y gallwn atgyfeirio ato yw'r prosiect talebau Mesurydd Blaendal. Ar hyn o bryd, mae Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych yn gallu darparu talebau Mesurydd Blaendal o £49 i denantiaid cymwys os ydynt wedi cael eu heffeithio gan Covid-19 ac yn ei chael hi'n anodd rhoi arian ar eu mesuryddion.

Mae gan Gyngor ar Bopeth hefyd brosiect cyfreithiol newydd o'r enw Clinig y Gyfraith Gogledd a Chanolbarth Cymru. Mae hwn yn helpu pobl nad ydynt yn gymwys am gymorth cyfreithiol ac nad ydynt yn gallu fforddio cyfreithiwr. Mae'r prosiect yn rhoi cyngor ar 3 maes o'r gyfraith:

**Teulu** – Ysgariad, Cyswllt, Cyfryngu, mynd i'r llys

**Gofal yn y Gymuned** – Atwrneiaeth a Dirprwyaeth yn benodol

**Cyflogaeth** – Cwynion, Diswyddo, Dileu Swydd, Tribiwnlysoedd Cyflogaeth

Ar hyn o bryd mae Cyngor ar Bopeth yn gweithio gyda Phwyllgor Carnifal Dinbych i baratoi ar gyfer y gyfnewidfa gwisgoedd ysgol a fydd yn digwydd eto yr haf hwn. Byddant yn hysbysebu manylion y digwyddiad yn lleol ac ar Facebook yn nes at yr amser.

Yr haf diwethaf, fe wnaeth Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych gynnal prosiect o'r enw Bwyta'n Dda, Coginio'n Araf ac fe wnaeth llawer o'n tenantiaid elwa o'r prosiect hwn a chael popty araf, llyfr ryseitiau a bocs o fwyd i goginio'r rysáit gyntaf. Rydym yn falch o fod yn gweithio gyda Chyngor ar Bopeth ar brosiect popty araf arall dros y misoedd nesaf. Bydd Cyngor ar Bopeth yn cysylltu gyda'r tenantiaid rydym wedi'u hatgyfeirio atynt am y prosiect.

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â sut y gallwn helpu, cysylltwch â'ch swyddog tai ar 01824 706000.

# TPAS Cymru/Erthygl Pyls Tenant (TPAS)

TPAS CYMRU TENANT PULSE PWLS TENANTIAID

Mae TPAS Cymru yn sefydliad sy'n gweithio gyda landlordiaid a thenantiaid yng Nghymru i helpu i ddatblygu gwasanaethau tai. Maent yn cynnig ystod eang o gyfleoedd hyfforddiant ac ymgysylltu ar draws Gogledd Cymru ac yn cynnwys arbenigedd sefydliadau eraill tebyg.

Os oes gennych ddiddordeb mewn gweld pa ddigwyddiadau sydd ar gael, yna cliciwch yma.

## Beth yw Pyls Tenant?

Ydych chi eisiau gwneud tai yn well?

Pyls Tenant yw llais tenantiaid yng Nghymru. Mae wedi'i greu gan TPAS Cymru a chefnogir gan Lywodraeth Cymru. Eu prif nod yw canfod beth sydd o bwys mwyaf i denantiaid yng Nghymru.

Mae canlyniadau eu harolygon yn cael eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru a landlordiaid i greu polisi tai sy'n gweithio i denantiaid ac sy'n gwneud tai yng Nghymru yn ddiogel ac yn deg.

**Dweud eich dweud drwy ymuno â'r miloedd o denantiaid sydd wedi cofrestru eisoes yn www.tpas.cymru/ynghylch/pwls-tenantiaid**

# Sut y gall Sir Ddinbych yn Gweithio eich cefnogi chi?

Yn ogystal â sut y gallwn eich helpu chi, mae Sir Ddinbych yn Gweithio yn wasanaeth cyflogadwyedd, sy'n ceisio cefnogi preswylwyr Sir Ddinbych, 16 oed a throsodd, sy'n wynebu tlodi.

Rydym yn cynnig cefnogaeth ar gyfer amrywiaeth o rwystrau y gallech eu hwynebu, fel,

- Cymorth i ganfod swydd
- Canfod gwaith neu leoliad gwirfoddoli
- Hyfforddiant a chymwysterau pellach
- Magu hyder a chefnogaeth i'ch ysgogi
- Creu neu wella CV
- Sgiliau a thechnegau cyfweliad
- Llenwi ffurflenni cais
- Datblygu sgiliau TG sylfaenol
- Eich cynorthwyo i ddeall eich hawl i dderbyn budd-daliadau
- Cymorth gyda chyllid ar gyfer offer, dillad cyfweliad a thystysgrifau
- Ariannu costau teithio i gyfweliadau, lleoliadau gwaith a hyfforddiant (yn ôl disgresiwn eich mentor)

Sir Ddinbych yn Gweithio
Working Denbighshire

Os byddwch yn cofrestru, bydd mentor yn cael ei neilltuo i chi, fydd yn eich cefnogi i gyrraedd yr amcanion a ddymunir gennych. Gallwch drafod unrhyw rwystrau sy'n eich atal rhag gwella eich amgylchiadau personol.

O fewn Sir Ddinbych yn Gweithio, mae gennym Gydlynwyr Cyflogaeth. Maent yn ymgysylltu â chyflogwyr amrywiol ar draws Sir Ddinbych a thu hwnt, gan ddarparu rhestr o gyfleoedd gwaith sydd ar gael i'n cyfranogwyr sy'n cael eu cynnig i'n tîm ni yn unig.

Mae Sir Ddinbych yn Gweithio yn ymwneud â sawl sefydliad gwahanol, gan gynnwys y Ganolfan Byd Gwaith, Gyrfa Cymru, Hyfforddiant Gogledd Cymru, Gwasanaethau Ieuenctid, Cefnogi Pobl a llawer mwy.

**Os ydych yn credu y gall Sir Ddinbych yn Gweithio gynnig cefnogaeth i chi, cysylltwch â nhw ar: Ffôn: 01745 331438 / 07342 070635 neu e-bost: sirddinbychyngweithio@sirddinbych.gov.uk**



# Ydych chi wedi cael golwg ar ein gwefan newydd?

Yn y newyddlen ddiwethaf, gwnaethom gyhoeddi bod ein gwefan newydd yn fyw!! Mae'r wefan newydd yn ffynhonnell wych o wybodaeth i chi, i wybod am wasanaethau rydym yn eu darparu, sut y gallwn eich helpu chi, beth sy'n mynd ymlaen a llawer mwy! Byddem wrth ein bodd yn clywed eich barn am y wefan, neu'r hyn yr hoffech ei weld ar y wefan yn y dyfodol, felly gadewch i ni wybod drwy anfon e-bost atom, tai@sirddinbych.gov.uk

Mae rhai syniadau yr ydym yn gweithio arnynt ar gyfer y cam nesaf yn cynnwys:

**Porthol tenant** ble gallwch gael mynediad i'ch taflen ddatgan rhent diweddaraf, talu eich rhent, gweld llythyrau a dogfennaeth arall a anfonwyd atoch, hysbysiadau diweddaraf, arolygon, olrhain atgyweiriad a llawer mwy.

**Anfon neges testun ac e-bost** gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiadau, nodyn atgoffa am ymweliadau, debydau uniongyrchol taliad rhent ac arolygon.

**Sgwrs fyw** fel dull amgen i chi gysylltu â ni. Rydym yn ymwybodol nad pawb sy'n hoffi siarad ar y ffôn, aros am ymateb i e-bost neu alwad yn ôl.

**Ap tenant** dyluniwyd i wella cyfathrebu gyda chi a rhoi mynediad cynt i'ch porthol a chyfrif tenant.

Os oes yna unrhyw beth yr hoffech weld yn cael ei ddatblygu'n ddigidol, yna gadewch i ni wybod, a byddem wrth ein bodd yn clywed am eich syniadau. Rydym yn awyddus iawn i ymgysylltu â'n tenantiaid iau.

https://www.taisirddinbych.co.uk

# Yr Hen Goeden Dderwen – darn o hanes



**Dros y gaeaf, gofynnwyd i ni gael golwg ar goeden ym Modelwyddan ac ar ôl cynnal asesiad, roeddem wedi amcangyfrif bod y goeden tua 400 mlwydd oed! Mae'n anarferol i ni gael coeden yr oedran yma yn tyfu ar dir eiddo tai. Mae coed derw yn byw am tua 1000 o flynyddoedd felly mae ar fin cyrraedd canol oed. Mae'n debyg bod y goeden wedi'i phlannu oddeutu 1620, ar y tir hela o amgylch Castell Bodelwyddan, a adeiladwyd oddeutu 1460.**

Mae gan goed derwen hanes cyfoethog yn y tirlun Prydeinig ac mae'n darparu bwyd a chynefinoedd i gymaint o rywogaethau gwahanol o adar, pryfetach ac anifeiliaid, mwy na'r rhan fwyaf o goed cynhenid eraill mewn gwirionedd. Mewn cyfnod o 40 mlynedd, gall coeden dderwen amsugno 1 tunnell o $CO_2$, sy'n cyfateb i siwrnai yn yr awyr o Baris i Efrog Newydd ac yn ôl!

Ers i'r goeden gael i phlannu, bu llawer o newidiadau yn ac o amgylch y dref gan gynnwys adeiladu Eglwys Santes Marged "yr Eglwys Farmor" (1856-1860), ac yn y 1970au ac 80au adeiladwyd Ysbyty Glan Clwyd a'r A55.

Mae'r goeden wedi byw drwy amseroedd diddorol iawn, gan gynnwys Shakespeare, y chwyldro diwydiannol, y Frenhines Fictoria, y mudiad swffragét, 2 Ryfel Byd, Martin Luther King a nawr pandemig Covid 19. Tybed faint o goed anhygoel eraill sydd gennym allan yna?!

# Cam-Drin Domestig

**Mae mynd i'r afael â cham-drin domestig yn flaenoriaeth allweddol yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor.**




Dyma ddatganiad gan y Cynghorydd Mark Young, sy'n Aelod Arweiniol y Cabinet dros Gynllunio, Diogelu'r Cyhoedd, Cymunedau Diogelach a Cham-drin Domestig.

"Mae rhoi terfyn ar gam-drin domestig mor bwysig i ni fel Cyngor, fel ein bod wedi'i wneud yn un o'n blaenoriaethau yn ein Cynllun Corfforaethol.

"Mae trais yn erbyn dynion a menywod yn effeithio ar bob un ohonom ac mae'n bwysicach nag erioed i fynd i'r afael ag ef ac felly mae'r Cyngor yn datblygu dull ar draws y sir o leihau cam-drin domestig yn erbyn menywod a dynion fel rhan o'r Cynllun Corfforaethol yn ogystal â chefnogi strategaeth Gogledd Cymru i fynd i'r afael â phob agwedd ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

"Mae gwaith yn digwydd ar hyn o bryd i godi ymwybyddiaeth o gam-drin domestig gyda staff a defnyddwyr gwasanaeth; darparu hyfforddiant a datblygiad i staff adnabod arwyddion cam-drin domestig a chymorth i blant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt.

"Disgwylir i'r prosiect hwn barhau wrth i ni anelu at gyfrannu at leihau cam-drin domestig ar draws y sir. Felly cadwch olwg am ein negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae gennym hefyd lawer o gyngor defnyddiol ar ein gwefan ynghyd â dolenni i sefydliadau eraill sydd yno i'ch helpu.

"Yn sir Ddinbych, gwyddom fod y ffigurau wedi codi'n sydyn yn ystod y pandemig presennol.

"A allaf orffen drwy ddweud wrth unrhyw un, efallai na fyddwch hyd yn oed yn ymwybodol eich bod yn dioddef cam-drin domestig – nid yw bob amser yn amlygu ei hun mewn cleisiau. Peidiwch â dioddef yn dawel – mae pobl allan yna a all eich helpu. Os oes angen help arnoch, ffoniwch y Llinell Gymorth Byw Heb Ofn ar 0808 8010 800 7 diwrnod yr wythnos, am gyngor a chymorth am ddim neu i siarad am eich opsiynau, neu wrth gwrs, os ydych mewn perygl uniongyrchol, gallwch ganu Heddlu Gogledd Cymru ar 999."




**NID CHI YW'R UNIG UN.**

**#GwnewchYrAddewid #DimEsgusDrosGam-drin**



# Camddefnyddio Alcohol a Thrais yn y Cartref

**Pan edrychwch ar gamddefnyddio alcohol a thrais domestig, mae'n hawdd gweld bod cysylltiadau rhwng y ddau ymddygiad.**

Yn aml, mae'r trais yn y cartref yn cael ei hebrwng gan yfed gormod o alcohol dros gyfnod hir. Er nad yw'r yfed fel arfer yn achosi'r trais, gall wneud y sefyllfa'n fwy cyfnewidiol, gan gynyddu difrifoldeb ac amlder yr episodau cam-drin.

Er y gall yfed wneud y trais yn waeth, gall hefyd fod yn ddihangfa i'r person sy'n cael ei gam-drin, sydd yn ei dro yn dwysáu'r cylch trais domestig ymhellach fyth. Gall y trais hwn effeithio ar unrhyw blant sy'n agored i'r sefyllfa mewn sawl ffordd negyddol.

Mae camddefnyddio alcohol ynghyd â thrais domestig yn aml yn arwain at fwy o anaf i'r partner sy'n cael eu cam-drin, ac yfed bob dydd yw un o'r prif ffactorau risg ar gyfer cam-drin domestig.

Os ydych chi neu rywun rydych chi'n ei adnabod yn mynd drwy trais domestig, gallwch ffonio'r Llinell Gymorth Byw Heb Ofn ar **0808 8010 800**

Dylai unrhyw un sydd mewn perygl uniongyrchol ffonio **999**.

**#BywHebOfn #Nidchiywrunigun**

Gallwch hefyd ymweld â gwefan Alcoholics Anonymous am help a dod o hyd i'ch grŵp agosaf hefyd.

**https://www.alcoholics-anonymous.org.uk/Home**

Cam-drin domestig yw un o'r problemau mwyaf rydyn ni'n eu hwynebu. Yn 2019, gwnaeth Tai Sir Ddinbych addewid i gefnogi pobl sy'n profi camdriniaeth ddomestig. Mae cyfran fawr o gam-drin domestig yn digwydd heb adroddiad ohono, ond mae astudiaethau'n awgrymu bod miliynau o bobl yn cael eu heffeithio bob blwyddyn. Yn drasig, caiff dwy ferch eu lladd bob wythnos gan eu partner neu gynbartner.

Mae ein haddewid yn canolbwyntio ar bedwar ymrwymiad yr ydym yn cytuno i'w gwneud i ddarparu cefnogaeth i bobl sy'n profi camdriniaeth ddomestig. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Rhoi ar waith ac ymgorffori polisi i gefnogi ein tenantiaid sy'n cael eu heffeithio gan gam-drin domestig.
- Sicrhau bod gwybodaeth am gymorth cam-drin domestig cenedlaethol a lleol ar gael ar ein gwefan a lleoedd perthnasol eraill fel ei bod yn hygyrch.
- Diwygio neu greu polisi AD, i gefnogi staff a allai fod yn profi camdriniaeth ddomestig.
- Penodi cefnogwr, ar lefel uwch, i gymryd cyfrifoldeb am yr hyn rydym yn ei wneud i gefnogi pobl sy'n profi camdriniaeth ddomestig.

I gael gwybod mwy am ein haddewid, ewch i - http://archifau.sirddinbych.gov.uk/

**Llinellau cymorth defnyddiol:**

Mae'r llinell gymorth Trais Domestig Cenedlaethol yn llinell gymorth gyfrinachol rhad ac am ddim a gynhelir gan Women's Aid a Refuge ar gyfer unrhyw un sy'n profi trais domestig. Mae ar gael 24 awr y diwrnod, saith niwrnod yr wythnos. Gallwch gysylltu â nhw ar **0808 2000 247** neu ymweld â **www.nationaldomesticviolencehelpline.org.uk**

Mae Women's Aid yn darparu ystod o wybodaeth a chefnogaeth ar gam-drin domestig, gan gynnwys cefnogaeth i bobl sy'n profi camdriniaeth ddomestig a phobl sy'n poeni y gallai eraill fod. Gallwch gysylltu â nhw ar **0808 80 10 800** neu ymweld â **www.welshwomensaid.org.uk/cy**


MAKE A STAND

Our homes, our people, our problem.

This is to certify that

**Denbighshire Housing**

has signed the Chartered Institute of Housing's Make a Stand pledge and has committed to take action to support people experiencing domestic abuse.

Terrie Alafat CBE chief executive
Chartered Institute of Housing

women's aid
Chartered Institute of Housing
daha

# Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Ddatblygu Cymunedol

Er nad ydym wedi gallu cynnal ein digwyddiadau wyneb yn wyneb, rydym yn dal wedi bod yn ymgysylltu â'n cymunedau drwy gydol y coronafeirws!

**Ymarferion o gadair freichiau:**



Yn ystod cyfnod llai o gyfyngiadau, roeddem wedi cynnal peilot ymarfer o gadair freichiau, o dan arweiniad Hamdden Sir Ddinbych yn Nhrem y Foel. Roedd pawb wnaeth fynychu yn ddiolchgar iawn a chawsom adborth gwych, gan gynnwys:

"Roedd yn braf mynd allan o'r fflat a chymdeithasu'n ddiogel."

"Roedd yn braf cael ymarfer a chydlynu yn ôl yn fy mywyd."

**Celf a Chrefft:**



Dros gyfnod y Nadolig, roeddem yn gweithio gyda Chelf Sir Ddinbych a chynhaliwyd sesiynau celf yn Llygadog a Threm y Foel. Yn ystod y sesiynau roedd artist lleol yn chwarae cerddoriaeth Nadoligaidd ar y sielo. Roedd pawb yn mwynhau mynd allan o'u fflatiau a mynd i ysbryd yr ŵyl yn ddiogel. Dangoswyd i'r tenantiaid beth i'w wneud ac roeddent yn gallu mynd â phecyn celf adref gyda nhw i'w wneud. Yng Nghysgodfa, roeddem wedi trefnu i gerddoriaeth gael ei chwarae yn yr iard i bobl wrando o'u cartrefi eu hunain.

Yn ogystal â'r sesiynau hyn, cafodd 55 pecyn celf teulu eu cludo'n ddiogel ar draws Sir Ddinbych i'w mwynhau yn barod ar gyfer y Nadolig.

**Pencampwyr Digidol:**

Ym mis Ionawr, roedd ein Swyddogion Tai wedi mynychu sesiwn Pencampwyr Digidol ar-lein, gan Cymunedau Digidol Cymru. Bydd yr hyfforddiant hwn yn galluogi ein Swyddogion Tai i ddarparu cymorth a'ch cefnogi i fynd ar-lein. Yn ystod y sesiwn, roedd swyddogion yn dysgu beth a olygir gan gynhwysiant digidol, deall yr angen i wella sgiliau cynhwysiant digidol oedolion a phobl ifanc, a deall y rhwystrau a all atal unigolyn rhag cyfrannu at gynhwysiant digidol. Allwn ni ddim aros i weld sut gall yr hyfforddiant hwn eich helpu chi.



**Canolfan Gymunedol Pengwern:**

Newyddion gwych!! Rydym wedi sicrhau £71,000 o grant drwy Loteri Dyfodol Gwledig ar gyfer prosiect cymunedol ym Mhengwern.

Bydd y prosiect Dyfodol Gwledig yn canolbwyntio ar greu effaith gadarnhaol ar gymuned Llangollen drwy:

- Ddarparu'r lle a'r adnoddau i ddarparu gweithgareddau a gwasanaethau cydgynhyrchu. Bydd hyn yn helpu rhwydwaith o gefnogaeth y gall pobl gael mynediad iddo i ddiwallu eu hanghenion sylfaenol.
- Cynyddu cyfleoedd i gynyddu sgiliau a dyheadau.



- Cynyddu cyfleoedd i gysylltu a rhoi yn ôl i eraill.
- Datblygu cyfalaf cymdeithasol o fewn y gymuned a chydgynhyrchu gyda gwasanaethau cysylltiol eraill, i sicrhau ein bod yn darparu rhwydwaith o gefnogaeth i'r gymuned.

Bydd y cyllid ar gyfer y prosiect hwn yn ein galluogi i wneud hyn drwy:

Ddymchwel dwy garej i greu ystafell ar gyfer:

- 3 uned bwrpasol mewn dyluniad a ddewiswyd gan y gymuned.
- Gwella cyfleusterau presennol a rhai gafodd eu gwella yn ddiweddar.
- Darparu lle cyfrinachol ar gyfer cyfarfod
- Gofod gweithdy cymunedol llawn adnoddau i helpu i fynd i'r afael â thlodi ac ynysu gwledig a lles cyffredinol y gymuned.

Cyflogi cydlynydd canolfan rhan amser i:

- Gynyddu'r defnydd o'r ganolfan
- Datblygu cysylltiadau gyda rhanddeiliaid i fwyhau cyfleoedd
- Darparu gwasanaethau sy'n mynd i'r afael ag ynysiad
- Gwella mynediad i wasanaethau a gweithgareddau i ddatblygu sgiliau
- Darparu cyfleoedd dysgu seiliedig ar sgiliau a hyfforddiant.

Gobeithio y bydd y prosiect hwn yn helpu ar gyfer newid tymor hwy sydd ei angen i ymgysylltu, galluogi a rhoi grym i breswylwyr roi diwedd ar y cylch o dlodi cenhedlaeth a gwella siawns bywyd.

Rydym yn darparu'r arian cyfatebol ac rydym wedi gweithio'n agos gyda Phartneriaeth Cymuned De Sir Ddinbych, Cyfeillion Pengwern a Severn Wye ar ddatblygu'r prosiect hwn.

## Sbotolau – Beth mae llyfrgelloedd yn gallu ei wneud i chi?

Pob newyddlen, rydym eisiau rhoi'r sbotolau ar wasanaethau lleol y gallwch gael mynediad iddynt yn eich cymuned leol. Mae'r rhifyn hwn yn rhoi'r sbotolau ar Wasanaethau Llyfrgell Sir Ddinbych, gan gynnwys:

**Bagiau Atgofion:**

Mae Llyfrgelloedd Sir Ddinbych yn cynnig casgliad newydd o fagiau cof sydd ar gael ar gyfer eu benthyg o'ch llyfrgell leol.

Maent yn cynnwys casgliad o lyfrau, cerddi, arteffactau ac arogleuon wedi eu dylunio i ysgogi'r synhwyrau a hybu atgof a thrafodaeth.

Maent wedi eu dylunio yn benodol ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia, ac maent yn rhan o'r Cynllun Darllen yn Dda ar gyfer Dementia.

Crëwyd y Bagiau Atgofion gan Lyfrgelloedd Sir Ddinbych, mewn partneriaeth gyda Chwmni Buddiannau Cymunedol Life Story Network, a'r Cymunedau Bywiog o fewn Hamdden Sir Ddinbych Cyf ac ariannwyd gan Grant o dan arweiniad Cymuned Ymwybodol o Dementia.


**Lawrlwythiadau Digidol a Chlicio/Casglu:**

Mae yna ystod eang o e-lyfrau, e-lyfrau llafar, papurau newydd a chylchgronau ar gael ar-lein i'w lawrlwytho am ddim.

Gallwch hefyd archebu llyfr ar-lein a'i gasglu ar ddyddiad arall drwy ymweld â https://www.denbighshire.gov.uk/cy/hamdden-a-thwristiaeth/llyfrgelloedd/ . Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â'ch llyfrgell leol neu ar-lein.

**Dechrau Da:**

Ar gyfer teuluoedd ifanc, mae Dechrau Da yn gwneud llwyth o weithgareddau, caneuon a phethau hwyliog i blant bach ar-lein. Os byddwch yn dilyn Dechrau Da Sir Ddinbych ar Facebook ac YouTube gallwch weld yr holl amseroedd rhigwm a fideos wedi eu recordio o ganeuon a rhigymau i'w gwneud gartref gyda'r plant bach.



# Gwelliannau amgylcheddol

### Llangollen

Rydym wedi bod yn gweithio gyda Chyfeillion Pengwern a Gwasanaethau Cefn Gwlad i drefnu i blannu perllan cymunedol ar ystâd Pengwern. Bydd y berllan yn cael ei phlannu gyda choed Treftadaeth Cymreig gan gynnwys Eirin Dinbych. Bydd yr ardal hefyd yn cynnwys dôl blodau gwyllt i wella peillio, meinciau a llwybr. Bydd y plannu coed a'r llwybr yn cael eu cwblhau y gwanwyn hwn a gobeithio y gallwn gynnwys y gymuned i blannu'r ddôl blodau gwyllt yn ystod y flwyddyn pan fydd yn ddiogel.



### Gellifor

Gyda chymorth gan Tai Sir Ddinbych a Cadwch Gymru'n Daclus, mae Cyngor Cymuned Llangynhafal a gwirfoddolwyr lleol wedi dechrau trawsnewid darn o dir gwastraff ym mhentref Gellifor, i ardd gymunedol fendigedig a werthfawrogir yn fawr.

Ynghyd â phreswylwyr lleol, rydym wedi gweithio'n galed yn ystod misoedd yr hydref a'r gaeaf i greu "gofod natur" parhaol, i fod yn llawn o goed prin (gan gynnwys Afal Dreftadaeth ac Eirin Dinbych), planhigion, blodau a blodau gwyllt. Mae'r ymateb a'r gefnogaeth i'r ardd eisoes yn gadarnhaol iawn. Pan fydd y cyfyngiadau wedi eu codi, mae'r cyngor cymuned yn gobeithio y bydd yr ardd yn hafan i flodau gwyllt, yn fan tawel i bobl eistedd a mwynhau, ond hefyd helpu i ddatblygu mwy o ysbryd cymunedol. Mae gwirfoddolwyr yn amrywio o'r sawl gyda sgiliau garddio a gwybodaeth ardderchog, i'r rhai sydd â dim, ond sy'n awyddus i gyfrannu a dysgu.

Mae rota o wirfoddolwyr yn cael ei greu i wneud mwy o waith plannu a datblygu yn ystod y gwanwyn, gyda chynlluniau ar gyfer mannau eistedd a byrddau gyda mynediad i gadeiriau olwyn. Os hoffech gymryd rhan, gallwch gysylltu â Iola Quinn drwy e-bost: iola.quinn@btinternet.com neu 07722124323.


Cyn


Ar ôl

### Natur er Budd Iechyd

Oherwydd llwyddiant anhygoel rhaglen y llynedd, rydym yn gweithio gyda Gwasanaethau Cefn Gwlad ar hyn o bryd i lunio rhaglen o sesiynau tebyg eleni. Rydym yn gobeithio gallu cynnal sesiynau dros fisoedd yr haf. Mae'r rhain yn cynnwys cerdded, gwirfoddoli, celf amgylcheddol ac ymwybyddiaeth ofalgar a llawer mwy. Mae'r sesiynau yn ffordd wych i gadw'n heini ac yn iach, dysgu sgiliau newydd a chyfarfod pobl newydd.

Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at fynd yn ôl allan a gobeithio eich bod chi hefyd. Cadwch olwg ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol Tai Sir Ddinbych a Gwasanaethau Cefn Gwlad.